



“Yn fy marn i, mae’r
bwriad o ddarparu pob
math o ofal iechyd
i bawb yn galw am
rywbeth mwy beiddgar
na dim ond addasiad”

Ein gweledigaeth
yw gwneud Cymru
y lle o ddewis ar
gyfer arloesedd ym
meysydd iechyd,
gofal a llesiant.

Ein gweledigaeth

Ein cenhadaeth

Ein cenhadaeth yw cyflymu datblygiad a'r defnydd o atebion arloesol ar gyfer iechyd a llesiant gwell.

Ein rôl

Rydym yn ysbrydoli cydweithrediad er mwyn llywio atebion gofal iechyd arloesol. Rydym yn cefnogi'r diwydiant gwyddorau bywyd, ac yn gweithio gyda'n partneriaid ym meysydd iechyd a gofal cymdeithasol, diwydiant a'r byd academiaidd, i nodi, meithrin a datblygu ffyrdd o wneud gwahaniaeth cadarnhaol i lesiant cleifion. Mae ein hunaniaeth Gymreig a'n cydwytbod gymdeithasol gyffredin wrth wraidd popeth a wnawn..

Ein blaenoriaethau

Yn unol â'r Cynllun Gweithredu Economaidd i Gymru, ein blaenoriaethau yw cyflawni buddiannau economaidd a chymdeithasol. Drwy gydweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru, rydym wedi diwygio ein cyfeiriad strategol. Ein ffocws cyntaf yw creu a datblygu::

- Cynllun gweithredu cadarn
- Cyflenwi achos busnes pum cam
- Ymgysylltu â rhanddeiliaid
- Cyflenwad o gyfleoedd

Datganiad y Cadeirydd



Pennod newydd ar gyfer Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru wedi'i hadfywio: ymrwymiad i gyflawni newid sylweddol wrth wella iechyd a chyfoeth pobl Cymru drwy arloesedd a phartneriaeth

Mae eleni yn dynodi pennod newydd mewn cyfnod o dwf i'r Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru wedi'i hadfywio. Mae Bwrdd Cyfarwyddwyr newydd wedi'u penodi; penodwyd Prif Swyddog Gweithredol dros dro; rydym wedi creu ein tîm uwch reolwyr; rydym wedi sicrhau cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru i'n Cynllun Busnes ac rydym wedi diffinio ein strategaeth newydd a'r cyfeiriad ar gyfer ymgorffori ein rolau newydd yn gadarn a chyflawni ein hamcanion. Pleser ac anrhydedd o'r mwyaf yw i mi gael fy mhenodi yn Gadeirydd y Bwrdd. Rwy'n bwriadu ymrwymo fy hun i gyflawni ein tasgau newydd heriol ac, yn benodol, ein hymrwymiad i chwarae rhan bwysig yn y gwaith o wella llesiant ac iechyd a gofal i bobl yng Nghymru. Bydd yn gyfnod cyffrous a buddiol i mi fod yn gysylltiedig â chyflawni gweledigaeth a chenhadaeth o'r newydd yr Hwb Gwyddorau Bywyd.

Prif her unrhyw Fwrdd newydd yw dod at ei gilydd ac i weithio fel tîm, ac rwy'n falch o ddatgan ein bod yn sicr wedi cyflawni hynny. Mae'r Cyfarwyddwyr yn arddangos, yn ôl y bwriad, amrediad eang o gefndiroedd gwahanol, a'r meysydd perthnasol sydd eu hangen o brofiad cadarn ac arbenigedd yn eu meysydd penodol. Rydym eisoes wedi gwneud y defnydd gorau o'r cymysgedd hwn o dalentau ar ein Bwrdd wrth gytuno ar ein strategaeth a chynllunio ar gyfer y dyfodol. Yn bwysicaf oll, mae hyn yn cynnwys arddangos diben cyffredin ac ymrwymiad i wella iechyd, cyfoeth a llesiant pobl yng Nghymru drwy hwyluso rhyngweithiadau'r sector preifat gyda meysydd iechyd a gofal er mwyn gallu datblygu a mabwysiadu arloesedd a fydd yn cefnogi twf cyflogaeth ac economaidd cynaliadwy. Mae'n ffrind gallu gweithio gyda phobl mor dalentog ar y Bwrdd a'r nifer gynyddol o gydweithwyr sydd gennyf yn yr Hwb Gwyddorau Bywyd, gyda phob un ohonynt wedi ymrwymo'n llwyr i weledigaeth ac ymrwymiad i gyflawni ein rôl a'n hamcanion.

Rydym hefyd yn ffodus o gael mandad mor glir gan Lywodraeth Cymru, mandad sydd wedi'i hysbysu gan ystyriaethau strategol cadarn Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Gwyddorau Bywyd a benodwyd gan Weinidogion. Mae gwaith y Grŵp wedi ategu ein gweithgareddau i gwblhau ein strategaeth a'n helpu i ddiffinio ein prif amcanion.

Un o ddangosyddion perfformiad allweddol yr Hwb Gwyddorau Bywyd yw helpu i hwyluso arloesedd. Mae hyn yn galw am ffocws ar arloesedd gwirioneddol gyda'r potensial i gyflawni newid trawsnewidiol. Rwy'n credu bod Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru mewn sefyllfa dda i ddatblygu'r arloesedd hwnnw a gwneud gwahaniaeth arwyddocaol i fywydau pobl Cymru. Byddai Aneurin Bevan yn sicr o fod wedi cymeradwyo hynny. Dywedodd unwaith, "Nid oes prawf am gynnydd ar wahân i'w effaith ar yr unigolyn." Mae'n addas, yn y flwyddyn sy'n dynodi 70 mlynedd ers sefydlu'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol, ein bod yn datblygu partneriaeth agosach â GIG Cymru. Rydym eisoes wedi gwneud cynnydd sylweddol a derbyniol tuag at wireddu perthynas sy'n fuddiol i'r ddwy ochr. Mae hyn wedi cynnwys cyfarfodydd rheolaidd gyda Byrddau Iechyd, gweithwyr proffesiynol gofal iechyd, rheolwyr, ac uwch benderfynwyr y GIG. Mae nifer o aelodau ein Bwrdd, minnau yn eu plith, wedi gweithio neu'n parhau i weithio yn y GIG. Mae hyn yn ein helpu fel sefydliad i ddeall sut i ymgysylltu â'r gwasanaeth iechyd. Rydym yn deall y naratif a, thrwy ein cysylltiadau â diwydiant a'r byd academiaidd, mae gennym ffordd gyffrous a ddichonadwy i'w cynorthwyo i gyflawni eu nodau.

Elfen ganolog o'n gwaith yw'r angen i gydweithio. Yn ogystal â'r uchod, rydym yn gweithio gydag amrediad eang o bartneriaid – llywodraeth, byd academiaidd, masnach a'r GIG – pob un yn gweithio gyda'r nod gyffredin o gyflawni newid sylweddol wrth wella iechyd a chyfoeth pobl yng Nghymru. Bydd hyn yn ddibynnol ar bawb yn cydweithio a chynnwys y bobl eu hunain wrth gyd-ddylunio, cyd-gynhyrchu a chyd-berchen, er mwyn canfod ffyrdd arloesol a newydd i ddatblygu a chyflenwi ein systemau a'n prosesau gofal iechyd.

I mi, mae'n gyfnod cyffrous a gwerth chweil i dystio'r camau arloesol sy'n cael eu cymryd gan Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru ar ei newydd wedd, drwy symud o'i chyfnod dechreuol a thyfu i aeddfedrwydd. Mae'r misoedd a'r blynyddoedd nesaf yn addo cyfnod o drawsnewid i'r sectorau iechyd a gwyddorau bywyd yng Nghymru ac rwy'n gobeithio cyflymu'r momentwm er mwyn i'r Hwb Gwyddorau Bywyd gael ei hystyried fel partner gwerthfawr i GIG Cymru er mwyn datgelu tirlun iechyd a chyfoeth gwell yng Nghymru i ddinasyddion Cymru.

Yr Athro Syr Mansel Aylward

CB MD DSc FFOM FFPH FRCP FLSW

Elfen ganolog
o'n gwaith
yw'r angen
gydweithio.

Adolygiad y Prif Weithredwr



Rydym yn ymrwymedig i sicrhau atebion arloesol sy'n creu budd uniongyrchol i bobl Cymru

Mae wedi bod yn flwyddyn brysur a chyffrous o newidiadau mawr i Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru. Rydym yn y broses o ddatblygu o fod yn sefydliad aelodaeth fusnes i fod yn ysgogwr deinamig y diwydiant gwyddorau bywyd, gan ganolbwyntio ar wella iechyd a llesiant pobl yng Nghymru a thu hwnt. Rydym yn mabwysiadu dull gweithredu cyfranogiad agored ac yn gweithio gyda rhanddeiliaid ar draws y llywodraeth, diwydiant a'r GIG er mwyn gwneud yn siŵr y gall atebion arloesol wneud gwahaniaeth cynaliadwy a gwirioneddol i fywydau a llesiant pobl. Mae'n wych gweld brwdfrydedd ac egni fy nghydweithwyr yn atseinio ar draws rhwydweithiau diwylliant; yn ogystal â Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau GIG Cymru.

Yn ystod y chwe mis diwethaf rydym wedi symud ymlaen mewn sawl maes pwysig. Rydym wedi gwneud cynnydd da wrth ymgysylltu â'n gwasanaethau iechyd a'r llywodraeth i gytuno ar gyfeiriad yr Hwb Gwyddorau Bywyd yn y dyfodol. Mae hyn yn cynnwys mabwysiadu syniadau a chyfeiriadau Grŵp Gorchwyl a Gorffen y llywodraeth yn ogystal ag ymgysylltu mewn trafodaethau uniongyrchol sy'n fuddiol i'r ddwy ochr, gyda chlinigwyr ar draws y Byrddau a'r Ymddiriedolaethau Iechyd.

Mae gweithio'n agos gyda GIG Cymru yn elfen ganolog o'n gwaith. Mae alinio ein ffordd o feddwl, ein mentrau a'n dull cyflenwi yn hollbwysig er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth iechyd yn derbyn beth mae ei eisiau a'i angen gan Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru. Rydym yn cydweithio â rhanddeiliaid i nodi meysydd gwelliant blaenoriaeth ac anghenion clinigol, gan wneud yn siŵr ein bod yn sicrhau bod buddiannau poblogaeth Cymru wrth wraidd popeth a wnawn bob amser. Mae ein ffocws ar gynaliadwyedd. Rydym yn chwilio am dystiolaeth bod cynhyrchion a gwasanaethau newydd yn hyfyw ac yn gallu cyflawni addewidion, cyflawni ar gyflymder yn y tymor hwy a pharhau i wneud hynny ar y raddfa ofynnol.

Mae'r Hwb Gwyddorau Bywyd yn gartref i chwe busnes gwyddorau bywyd, ac mae'n darparu amgylchedd ffisegol ar gyfer meithrin a chefnogi cydweithrediad ac arloesedd i ffynnu.

Rydym yn symud ymlaen mewn nifer o feysydd. Yn yr Hwb Gwyddorau Bywyd ei hun, rydym wedi penodi uwch dîm rheoli newydd yn llwyddiannus, wedi cwblhau ymarfer ail-frandio sydd wedi canolbwyntio ar fynegi ein hethos drwy ein dulliau cyfathrebu ac rydym yn gweithio gydag ymgynghoriaeth i'n helpu i gyflawni ein nodau a sicrhau ein cynaliadwyedd. Lansiwyd ein gwefan newydd yn ddiweddar rydym wedi dechrau gweithio ar seilwaith digidol a fydd yn ein galluogi i ddarparu cefnogaeth well i'n rhanddeiliaid. Ymhlith y llwyddiannau gweithredol yn y misoedd diwethaf mae sicrhau cyllid Ewropeaidd arwyddocaol er mwyn cyflenwi prosiect CYFLYMU a lansiô'r Ecosystem Iechyd Digidol ar gyfer Cymru. Mae sefydliad tîm Datblygu Cynigion penodol bellach yn darparu tîm â chysylltiadau da, sy'n graff yn ariannol a mynd ar drywydd cyfleoedd cyllido allanol newydd.



Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i'n cydweithwyr a'n rhanddeiliaid. Gall newid fod yn her i unrhyw sefydliad ac mae'n braf gweld egni ac ymrwymiad pawb sy'n gysylltiedig â'r Hwb Gwyddorau Bywyd i'n datblygiad. Yr ymrwymiad hwn i wneud gwahaniaeth cadarnhaol er mwyn gwella iechyd a chyfoeth pobl Cymru sy'n ysgogi ein gwaith ac yn creu amgylchedd gwych ar gyfer cydweithredu ar bob lefel.

Mae'r flwyddyn hon yn cynrychioli dechreuad cadarn wrth i ni ddechrau ar ein cyfeiriad strategol diwygiedig. Mae'n anrhydedd cael cyfle i arwain a llywio'r Hwb Gwyddorau Bywyd wrth i ni deithio ar y daith hon. I ddefnyddio geiriau Aneurin Bevan, rydym yn ymrwymedig i gyflawni rhywbeth sy'n 'fwy beiddgar na dim ond addasiad.'


Cari-Anne Quinn
Prif Swyddog Gweithredol Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru

Mae gweithio'n agos gyda GIG Cymru yn elfen ganolog o'n gwaith.

2017-2018 Trosolwg o'r sectorau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Gwyddorau Bywyd yng Nghymru



Cynllun Gweithredu'r Llywodraeth ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru (Mehefin 2018)



"Roedd yr Adolygiad Seneddol yn argymhell y dylai Cymru sicrhau'r buddiannau mwyaf o dechnoleg ac arloesedd er mwyn cyflenwi gofal mwy effeithiol drwy ganolbwyntio ar dechnolegau presennol a'r rhai sy'n datblygu, gyda mwy o ffocws ar wasanaethau sydd wedi'u trefnu o amgylch yr unigolyn a'u teuluoedd mor agos â phosibl i'w cartref, deallusrwydd artiffisial a genomeg i lywio'r agenda newid.

Rydym yn falch iawn o weld ymrwymiad Llywodraeth Cymru i fuddsoddi mwy mewn technolegau digidol ar draws y sector iechyd a gofal cymdeithasol. Mae Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru mewn sefyllfa unigryw i ddatblygu hyn fel rhan o'r ateb cyflenwi."

Cari-Anne Quinn

Prif Swyddog Gweithredol Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru

Prif gyflawniadau Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru eleni

Yn ystod y flwyddyn rydym wedi newid pwyslais ein cyfeiriad strategol, gan symud o fod yn sefydliad ar sail aelodaeth i fod yn ysgogwr cynhwysol newid cadarnhaol i gymunedau ar hyd a lled Cymru. Mae ein hymrwymiad i wella llesiant economaidd ac iechyd ein cymunedau wedi'i sefydlu yn nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a gweledigaeth Grŵp Gorchwyl a Gorffen Llywodraeth Cymru. Rhai o'r cyflawniadau mwyaf eleni yw'r pontydd yr ydym yn eu hadeiladu rhwng clinigwyr, diwydiant, y byd academiaidd a chleifion.

Mae ein prif gyflawniadau eleni yn dynodi dechrau nifer i ddod. Bydd y rhain yn datblygu ac yn cynyddu yn y misoedd a'r blynedd nesaf ac maent yn seiliedig ar sylfaen o gydweithio. Mae cynnull ein rhanddeiliaid i greu cyfleoedd i gydweithio ym meysydd dylunio, cynhyrchu a chyflenwi yn ganolog i'n gwaith. Mae ein partneriaid yn y llywodraeth, y byd academiaidd, y GIG a diwydiant yn cydweithio gyda ni i wella systemau gofal iechyd, cyflenwi buddiannau gwell i gleifion, tyfu busnes a chreu cyflogaeth gynaliadwy.

Penodi Bwrdd newydd

Fe wnaethom gyhoeddi penodiad ein Bwrdd newydd ar ddiwedd 2017. O dan arweiniad y Cadeirydd, yr Athro Syr Mansel Aylward, mae'r Bwrdd yn cynrychioli sbectrwm eang o ddisgyblaethau'r gwyddorau bywyd ar draws y byd academiaidd, busnes a gofal iechyd. Wedi'u penodi gan Lywodraeth Cymru, mae'r Bwrdd yn ddarostyngedig i gyfrifoldebau sydd wedi'u nodi yn y Cytundeb Rheoli rhwng yr Hwb Gwyddorau Bywyd a'r Llywodraeth. Ymhlith aelodau'r Bwrdd mae:



Jarred Evans
Cyfarwyddwr Canolfan Ryngwladol Dylunio ac Ymchwil PDR



Dr Rhodri Griffiths
Rheolwr Gyfarwyddwr, sylfaenydd Societas Management Ltd



Dr Melya Hughes Crameri
partner yn Ventac Partners



Yr Athro Tim Irish
Athro Arfer yn Ysgol Fusnes King's College Llundain



Yr Athro Syr Mansel Aylward CB
Cadeirydd Comisiwn Bevan ac Athro Iechyd a Lles Darbodus yn yr Ysgol Reoli, Prifysgol Abertawe



Rupert Jones
Rheolwr Gyfarwyddwr busnesau meddygol Renishaw plc



Chris Martin
Dirprwy Gadeirydd Comisiwn Bevan a Chyfarwyddwr Anweithredol Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol



Dr Penny Owen
Cyfarwyddwr Masnachol y Labordy Ffisegol Cenedlaethol



Cath O'Brien
Cyfarwyddwr Gwasanaeth Gwaed Cymru

Yn ystod y flwyddyn rydym wedi ailffocysu ein cyfeiriad strategol, gan symud o sefydliad sy'n seiliedig ar aelodaeth i sbardun cynhwysol o newid cadarnhaol ar gyfer cymunedau ledled Cymru.

"Rwy'n croesawu penodiad bwrdd newydd yr Hwb Gwyddorau Bywyd ac rwy'n hyderus y bydd arbenigedd, profiad a thalent y Cadeirydd a'r aelodau a benodwyd yn golygu y gall y Bwrdd wneud cyfraniad enfawr i'r Sector Gwyddorau Bywyd yng Nghymru. Rwy'n edrych ymlaen at weithio'n adeiladol gyda'r Bwrdd newydd wrth i ni ddatblygu ein gwaith er mwyn cyflymu datblygiad economaidd o fewn y sector a sefydlu Cymru ymhellach fel un o'r amgylcheddau gorau yn y byd ar gyfer arloesedd ym maes y Gwyddorau Bywyd."

Ken Skates AC
Ysgrifennydd yr Economi Llywodraeth Cymru

"Fel Cadeirydd y Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru sydd wedi'i adfywio, rwy'n falch iawn ac wedi gwobrwyo'n llwyr bod ein gweledigaeth a'n cenhadaeth newydd a'r cyfeiriad strategol a fydd yn gyflawni rhain bellach yn eu lle. Rydym yn bwriadu manteisio ar gyfleoedd i feithrin ein perthynas â'r gwasanaethau iechyd a gofal yng Nghymru.

Rwy'n gyffrous fy mod yn rhan o Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru oherwydd fy mod yn gweld hyn yn gyfle i gyflawni newid sylweddol yn iechyd a chyfoeth pobl Cymru."

Yr Athro Syr Mansel Aylward CB

"Rwy'n gyffrous o fod yn rhan o Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru oherwydd ein bod yn cysylltu arloeswyr gwyddorau bywyd ac entrepreneuriaid gyda phenderfynwyr yn y GIG, i gyflymu'r mabwysiad o ymagweddau newydd at ofal iechyd cynaliadwy".

Dr Penny Owen

"Rwy'n falch iawn o gael y cyfle i fod yn Ddirprwy Gadeirydd Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru a, thrwy weithio gyda fy nghydweithwyr ar y Bwrdd, gallwn greu gwerth a chanlyniadau gwell ar draws y system iechyd a gofal yng Nghymru drwy hwyluso partneriaethau cwbl drawsnewidiol gyda'r sector Gwyddorau Bywyd yng Nghymru."

Chris Martin

"Rwy'n falch iawn i wasanaethu ar fwrdd Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru ac i gefnogi ei fandad i ddod ag arloesedd i'r sector iechyd a gofal, ac rwy'n gyffrous iawn o weld yr Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn cymeryd yr arweiniad o gamau cynner iawn y rhaglen CYFLYMU ar gyfer ymchwil CYFIEITHU yr holl ffordd i hwyluso'r mabwysiad o arloesedd i fewn i'r GIG."

Dr Melya Hughes Crameri

"Rwy'n gyffrous am y ffordd y bydd Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn gallu helpu wneud y mwyaf o'r cyfleoedd o ddatblygiadau mewn gwyddoniaeth a technoleg i bobl Cymru".

Cath O'Brien

Datblygu rhwydwaith o ofal: Ecosystem Iechyd Digidol ar gyfer Cymru

Mae Ecosystem Iechyd Digidol Cymru yn rhwydwaith sy'n cysylltu datblygwyr a chwmnïau gydag atebion iechyd digidol arloesol gyda'r GIG yng Nghymru. Mae'n cynrychioli cydweithrediad rhwng Canolfan Gwyddorau Bywyd Cymru a Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru (NWIS) ac fe'i hariennir drwy raglen effeithlonrwydd drwy dechnoleg Llywodraeth Cymru. Mae ei brif amcanion yn cynnwys:

- Cyflymu'r gwaith o gyflenwi a mabwysiadu'r atebion digidol diweddaraf er mwyn gwella canlyniadau i gleifion a lleihau costau
- Creu llwybr er mwyn cael mynediad at ddata iechyd a gofal
- Meithrin arloesedd gan bob rhanddeiliad, annog cydweithrediad a gweithrediad traws-sectoraidd
- Cefnogi datblygiad cynhyrchion a gwasanaethau newydd er mwyn ysgogi twf busnes, diogelwch swyddi a chreu swyddi, gan sicrhau ffyniant i bawb.

Fe wnaethom gynnal digwyddiad cyntaf Ecosystem Iechyd Digidol Cymru yng ngwesty St David's yng Nghaerdydd ddydd Mawrth 6ed Mawrth 2018. Mynychodd mwy na 120 o bobl o bob sector a sefydliad sydd â diddordeb mewn iechyd digidol. Roedd y digwyddiad hwn yn cyflwyno Ecosystem Iechyd Digidol Cymru a'r nod o ddod â'r GIG, Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru a diwydiant ynghyd er mwyn cyflymu gwelliannau ym maes iechyd drwy ddefnyddio data a thechnoleg.

Olrhain adnoddau

Mae Ecosystem Iechyd Digidol Cymru mewn sefyllfa dda i fynd i'r afael â heriau megis olrhain adnoddau. Gallai ecosystem ddigidol helpu darparwyr gofal iechyd i olrhain pobl, asedau ac adnoddau ar draws ysbyty. Gallai hyn gael effaith gadarnhaol ar gynyddu effeithlonrwydd ym maes nyrsio, yn ogystal â lleihau colledion a gwastraff ym maes fferylliaeth. Mae bwrdd iechyd yng Nghymru yn gweithio gyda'r Hwb Gwyddorau Bywyd i greu prosiect a all ddatblygu achos dros newid.

Rhyngwyneb Rhaglennu Cymwysiadau Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru

Mae Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru wedi bod yn datblygu'r cyntaf mewn cyfres o ryngwynebau rhaglennu cymwysiadau (API) er mwyn symleiddio'r broses o integreiddio gyda Phensaerniaeth Genedlaethol GIG Cymru. Mae'r API cyntaf yn rhoi manylion demograffig Efengylaidd cleifion GIG Cymru mewn amgylchedd prawf.

Ysgogi arloesedd: Datblygu Cynigion

Mae'r Tîm Datblygu Cynigion yr Hwb Gwyddorau Bywyd yn trefnu'r broses o gynnull partïon sydd â diddordeb, galluogi rhanddeiliaid â buddiannau a rennir i gydweithio tuag at amcanion penodol. Gall y rhain ganolbwyntio ar bolisi, ymchwil neu ddatblygiad a chyflawni rhywbeth pendant i Gymru. Mae'r Tîm yn helpu i sefydlu a llunio cylch gorchwyl ac yn ysgogi gweithgareddau cydgyssylltiedig, er enghraifft adnabod darpar bartneriaid a dod â hwy ynghyd.

Mae'r tîm Datblygu Cynigion yn cynorthwyo arloeswyr sy'n ceisio cyllid gan sefydliadau ac asiantaethau amrywiol megis Innovate UK Llywodraeth y DU a BEIS, yn ogystal ag eraill. Mae'r gefnogaeth hon yn cynnwys helpu busnesau i adnabod, gwneud cais am a chael mynediad at gyllid. Mae Datblygu Cynigion hefyd yn gyfrifol am greu Grwpiau Diddordeb Arbennig, er enghraifft Grŵp Diddordeb Arbennig Celloedd a Genynnau.

Cyflymu'r trosiad o syniadau yn atebion: CYFLYMU

Mae CYFLYMU yn rhaglen £24 miliwn a fydd, yn y tair blynedd nesaf, yn cefnogi masnacheiddio ac arloesi cynnyrch ym meysydd gwyddorau bywyd, iechyd a gofal. Mae'n cael ei harwain gennym ni yn Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru, mewn partneriaeth â Phrifysgol Caerdydd, Prifysgol Abertawe a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant. Mae'n cael ei chyd-ariannu gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru a Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru.

Nod CYFLYMU yw cyflymu'r broses o drosi syniadau yn gynhyrchion a gwasanaethau technoleg newydd, a chyflymu'r gwaith o ddosbarthu a mabwysiadu cynhyrchion a gwasanaethau technoleg newydd ym meysydd iechyd a gofal, mewn ffyrdd sy'n creu gwerth economaidd parhaol yng Nghymru.

Mae rhaglen CYFLYMU yn cael ei chydlynu drwy Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru, er mwyn cyflwyno 'drws blaen' unigol Cymru gyfan ar gyfer arloesedd ac ymgysylltiad allanol. Mae ei ddull gweithredu yn cynnwys:

- model arloesedd cydweithredol agored er mwyn cyflwyno heriau ac anghenion iechyd yn allanol, gwahodd atebion technoleg newydd
- dull labordy byw er mwyn profi a mireinio atebion go iawn, sy'n hyfyw yn economaidd
- cronfa wedi'i rheoli o arloesedd wedi'u harwain gan ddefnyddwyr gwasanaeth, clinigwyr ac academyddion sy'n ymatebol i anghenion clinigol.

“Gyda phoblogaeth sy'n tyfu ac yn heneiddio, a'r pwysau cynyddol ar ein gwasanaethau, mae canfod ffyrdd newydd a gwahanol i wella effeithlonrwydd o fewn y GIG yn hollbwysig. Arloesedd o ran systemau, prosesau a chynhyrchion yw'r ffordd orau i wneud hyn a dyna pam fod y buddsoddiad hwn yn rhaglen CYFLYMU yn arloesol i Gymru. Mae Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro yn edrych ymlaen at gael gweithio'n agos gyda Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru drwy'r rhaglen CYFLYMU ac yn ehangach”.

Len Richards
Prif Swyddog Gweithredol Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Ein Llwyddiannau

Rydym yn falch iawn ein bod yn gallu dangos effaith wirioneddol a pharhaus ein cydweithrediadau, wrth greu buddiannau sylweddol i gleifion yng Nghymru yn y tymor hir a'r tymor byr, yn ogystal ag ysgogi datblygiad cynaliadwy i Sector Gwyddorau Bywyd ac economi Cymru. Mae rhagor o wybodaeth am ein llwyddiannau ar gael yma:

"Mae datblygu ffyrdd arloesol i atal, trin a gwella salwch ac afiechydon yn rhan hollbwysig o weledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer dyfodol y GIG yng Nghymru. Bydd y rhaglen CYFLYMU a chronfa'r canolfannau arloesedd iechyd newydd yn helpu i ddatblygu syniadau newydd ar gyfer cynhyrchion a gwasanaethau iechyd yn gyflymach, i'w defnyddio yn ein GIG ac ar draws y byd."

Vaughan Gething AC

Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llywodraeth Cymru

Grŵp Diddordeb Arbennig Therapi Celloedd a Genynnau



Y CYFLE GWYDDORAU BYWYD

Therapi Celloedd a Genynnau yw datblygu a defnyddio triniaethau bôn-gelloedd i wella cyflyrau cronig, gwanychol. Y rhain yw'r gwyddorau gwaed a thriniaethau iechyd diweddaraf lle gall ymyraethau wella cyflyrau.

RÔL HWB GWYDDORAU BYWYD CYMRU

Fwy na phedair blynedd yn ôl, sefydlodd Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru Grŵp Diddordeb Arbennig Therapi Celloedd a Genynnau. Roedd yn canolbwyntio ar ddod â busnesau yn y sector hwn oedd â gweithgarwch presennol yng Nghymru ynghyd. Bu'r grŵp yn gweithio ar greu eu ffocws ymchwil a datblygu gan ymgysylltu â Gwasanaeth Gwaed Cymru sydd â phrofiad blaenorol o drosglwyddo gwaed i leoliadau ysbyty a dod ag arbenigwyr academiaidd allweddol ynghyd.

Bu'r Grŵp yn cwrdd yn rheolaidd gan gynyddu momentwm a llais ac ymgysylltu â Llywodraeth Cymru i godi ymwybyddiaeth o'r angen i newid y ffordd mae'r gwasanaeth iechyd yn ystyried therapi celloedd.

Yn ystod Haf 2017, cyhoeddodd Innovate UK – braich gyllido Llywodraeth y DU – gynlluniau i sefydlu tair canolfan Triniaeth Therapi Celloedd a Genynnau uwch yn y DU a gwnaed cais am gynigion.

Yn dilyn y cais am gynigion am gyllid gan Innovate UK, gwyddom yn Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru y gallai cyfle fodoli i Gymru gyfrannu a chwarae rhan allweddol. Drwy'r Grŵp Diddordeb Arbennig Therapi Celloedd a Genynnau, fe wnaethom gynnull y partïon â diddordeb.

O dan arweiniad Gwasanaeth Gwaed Cymru, fe wnaethom gyflwyno cais i Innovate UK cyn diwedd 2017. Gan wybod nad oedd y gronfa cleifion yn ddigon mawr yng Nghymru, cyflwynwyd cais am gyllid ar y cyd â Chanolbarth Lloegr, er mwyn cael mynediad at boblogaethau mwy ar gyfer triniaethau.

Bu'r cais yn llwyddiannus. Fel consortiwm rhwng Canolbarth Lloegr a Chymru fe wnaethom sicrhau £7.2 miliwn. O hyn, aeth £1.5 miliwn i Ymddiriedolaeth GIG Felindre a £500,000 i gwmni Gwyddorau Bywyd yng Nghymru o'r enw TrakCel, sydd â contractau rhwngwladol, i fonitro, olrhain a chanfod bôn-gelloedd drwy'r daith gynaeafu ac esblygiad, gan reoli'r broses olrhain a chanfod.

Y MANTEISION I'R GWASANAETH IECHYD, CLEIFION A'R ECONOMI

Mae hyn yn enghraifft wych o broses lle'r ydym wedi cynnull pobl sy'n meddu ar amrediad eang o arbenigedd a gwybodaeth sy'n gweithio yn yr un maes, llunio her i dimau a sicrhau gweledigaeth ac amcan cyffredin. Yna buom yn gweithio ochr yn ochr â hwy i greu canlyniad cadarnhaol, yn cyflenwi manteision gwirioneddol i gleifion.

Mae'r Grŵp Diddordeb Arbennig Celloedd a Genynnau yn cyflenwi cynhyrchion arloesol i gleifion. Heb Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru, mae'n bosibl y byddai'r cynhyrchion hyn wedi'u datblygu ar wahân i'r gwasanaethau iechyd. Rydym wedi llwyddo i sicrhau cyllid er mwyn rhoi'r prosiect ar waith.

Bydd y canlyniadau terfynol yn cael eu gwireddu cyn hir ac, yn y cyfamser, mae'r broses o fapio ac ymgysylltu systemataidd gyda chleifion eisoes yn gweithio'n dda er mwyn sicrhau'r gwerth mwyaf. Yn y pen draw, drwy helpu i osgoi sefyllfa lle mae'r diwydiant yn gweithio ar ei ben ei hun, rydym yn llwyddo i gyflawni arbedion effeithlonrwydd ac arbedion costau.

Mae'r Grŵp Diddordeb Arbennig Celloedd a Genynnau, a sefydlwyd gan yr Hwb Gwyddorau Bywyd yn 2016, yn parhau i ddod â rhanddeiliaid allweddol ynghyd o fewn y maes therapïau uwch er mwyn cefnogi ac ysgogi arloesedd, cydweithrediad a sicrhau buddsoddiad er mwyn i'r maes dyfu.



Y CYFLE GWYDDORAU BYWYD

Un mater iechyd arwyddocaol sy’n effeithio ar bobl Cymru yw Clefyd Rhwystrol Cronig yr Ysgyfaint. Mae hwn yn derm cyffredinol am glefydau megis emffysema, bronchitis cronig ac asthma anwrthdroadwy. Yn anffodus, mae Cymru’n profi nifer uwch o glefydau Clefyd Rhwystrol Cronig yr Ysgyfaint (COPD) nac unrhyw le arall yn y DU. Y clefyd hwn yw’r trydydd achos mwyaf o farwolaeth, y trydydd achos mwyaf o dderbyniadau brys mewn ysbytai ac mae’n cymryd cyfran uwch o amser meddygon teulu nac unrhyw glefyd cronig arall.

Mae Ian Bond, sy’n glaf COPD ac yn eiriolwr ‘hunan-reoli’ wedi datblygu llwyfan digidol gyda’i gydweithiwr, Dave Taylor, sydd wedi’i alluogi i fonitro ei gyflwr ei hun a derbyn gofal wedi’i arwain gan dystiolaeth gan ei feddyg teulu ac arbenigwyr. Bydd y llwyfan hwn yn cynorthwyo cleifion eraill i fynd i’r afael ac ymgysylltu’n well â’u cyflwr a gwybod pryd y mae’n briodol iddynt geisio ymyrraeth glinigol. Mae hyn yn arbennig o ddefnyddiol i gleifion sy’n aml yn teimlo allan o wynt ac efallai na allant werthfawrogi’n rhwydd pa mor ddifrifol y gallai cyfnod o ddiffyg anadl fod iddynt. Mae’r llwyfan yn integreiddio AI sy’n gallu dysgu am y cleifion a darparu arwyddion o rybudd i feddygon teulu neu ofalwyr.

RÔL HWB GWYDDORAU BYWYD CYMRU

Fe leolodd Ian ei fusnes yn Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru wrth ddesg yn ein swyddfeydd cynllun agored. Gallai gael mynediad at ecosystem gyfan y diwydiant Gwyddorau Bywyd. Mae hyn yn cynnwys cyllidwyr, staff datblygu, swyddogion Llywodraeth Cymru, mynediad at ddulliau cyllido megis Innovate UK, yn ogystal â digwyddiadau a chynadleddau.

Gallai Bond Digital Health ymgysylltu â Banc Datblygu Cymru a chyllidwyr eraill, yn ogystal ag aelodau’r gymuned COPD, gan gynnwys clinigwyr. Mae tîm Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn cynnal diddordeb brwd yn eu cylch datblygu cynnyrch ac yn sicrhau eu bod yn gweithio gyda’r partneriaid a’r rhanddeiliaid cywir er mwyn symud pethau ymlaen.

Ar ôl dechrau yn 2016 mae Bond Digital Health bellach yn cyflogi wyth aelod o staff ac maent yn bwriadu cynyddu i 12 erbyn diwedd y flwyddyn hon. Yn eu blwyddyn fasnachu gyntaf sicrhodd Bond gontractau gwerth £700,000 ac ennill gwobrau clodwiw’r diwydiant. Yn y flwyddyn ariannol hon mae’r cwmni wedi derbyn prisiad o £5 miliwn, mae cysylltiadau wedi datblygu yma a thramor, Grant Innovate UK gydag offer gwisgadwy arbenigol ar gyfer cleifion COPD a’r cyfraniad cyntaf o rownd fuddsoddi £1 filiwn. Maent bellach yn arwain consortia er mwyn ysgogi newidiadau mewn meysydd eraill yn ogystal â COPD.

MANTEISION I’R GWASANAETH IECHYD, CLEIFION A’R ECONOMI

Drwy gefnogaeth yr amgylchedd arloesol agored a gynigiwn, mae Bond Digital Health wedi gallu datblygu cynnyrch a fydd yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau’r gymuned COPD; i staff meddygol a chleifion fel ei gilydd. Mae cleifion yn cael eu grymuso i reoli eu cyflyrau yn well, a gallu gweithio’n fwy effeithiol yr un pryd gyda’u meddygon a’u timau cefnogaeth glinigol.

Mae’r Athro Keir Lewis yn arbenigwr blaenllaw ym maes meddygaeth yr ysgyfaint ac yn Gyfarwyddwr Ymchwil a Datblygu Bwrdd Iechyd Hywel Dda. Roedd yn cydnabod potensial llwyfan Bond yn darparu gofal iechyd darbodus ac, yn 2017, fe gynigiodd y byddai’n gweithio fel Arweinydd Clinigol i Bond Digital Health ac fe ymunodd â’r bwrdd fel Cyfarwyddwr Anweithredol.

Er y gellir mesur ‘arbedion’ mewn punnoedd, mae arbedion gwirioneddol yn cael eu cyflawni hefyd i amser meddygon ac arbenigwyr, rhestrau aros, gwelyau ysbytai ac ansawdd bywyd gwell i gleifion a’u teuluoedd.

Yn ogystal, drwy dwf y busnes gwirioneddol, mae Bond Digital Health yn cefnogi’r economi leol, yn darparu swyddi ac yn cynyddu busnes yn y gadwyn gyflenwi drwyddi draw.

“Rwy’n falch iawn o gael gweithio fel rhan o Bond Digital Health. Mae dealltwriaeth ac egni’r tîm cyfan yn rhyfeddol. Mae eu hethos o ddod â chleifion a meddygon at ei gilydd i gydweithio — datblygu technoleg yn uniongyrchol er mwyn gwasanaethu anghenion clinigol ac ateb problemau gwirioneddol y byd — yn cyd-fynd yn agos â’n agenda iechyd ddarbodus. Mae’r effaith a’r potensial ar gyfer rheoli clefydau’r ysgyfaint, yn arbennig COPD, yn aruthrol.”

Yr Athro Keir Lewis
Professor of Respiratory Medicine, University of Swansea
and R&D Director of Hywel Dda Health Board.

“O’r diwrnod cyntaf un, roedd bod gyda’r Hwb yn rhoi llawer o fanteision i ni nad ydynt ar gael i fusnesau bach a chanolig eu maint eraill. Cawsom ein cymryd o ddifrif fel rhan o’r gymuned Gwyddorau Bywyd; roedd yn rhoi rhywfaint o barch i ni. Mynediad at gysylltiadau yn y diwydiant, cynghorwyr, rhywun i gael paned o goffi a sgwrs gyda hwy, mae’r holl bethau hyn wedi rhoi’r hyder i ni fwrw ati, yn arbennig ar y dechrau pan oedd yn gyfnod caled. Wrth i ni dyfu a dechrau sefydlu ein hunain gallem fod wedi gwneud llawer o gamgymeriadau, ond cawsom gymorth gan ein rheolwr cyfrifon. Ydyn, rydyn ni’n llwyddiannus, ac rwy’n gwybod na fyddem wedi bod mor llwyddiannus oni bai am ein lle yn yr Hwb, y lleoliad gorau yng Nghymru ar gyfer swyddfeydd.”

Ian Bond
Cyd-sylfaenydd Bond Digital Health

Cymru – canolfan ragoriaeth gwyddorau bywyd

Wrth drafod Gwyddorau Bywyd, mae Cymru’n cystadlu ar lwyfan byd-eang. Mae’r sector yn cyflogi mwy na 11,000 o bobl sy’n gweithio ym meysydd medtech, meddyginiaethau adfywiol, diagnosteg, elechyd, gwasanaethau fferyllol a niwrowyddoniaeth. Mae mwy na 370 o gwmnïau, yn amrywio o fusnesau bach a chanolig eu maint a busnesau newydd i gwmnïau o’r radd flaenaf, yn gweithio yng Nghymru.

Cyflenwi lefelau gofal rhagorol

Mae GIG Cymru yn cyflenwi gwasanaethau drwy’r saith Bwrdd Iechyd Lleol a’r tair Ymddiriedolaeth y GIG, gan drin cleifion yng Nghymru tua 20 miliwn o weithiau bob blwyddyn.

Mae Cymru yn ganolfan rhagoriaeth i nifer o therapïau gwahanol. Agorodd y ganolfan therapi pelydr proton ynni-uchel gyntaf y DU ar gyfer trin canserau sy’n peryglu bywyd yn ddiweddar yng Nghanolfan Ganser Rutherford yng Nghasnewydd.

Mae ymchwil i ofal iechyd a llesiant yn gryf yng Nghymru. Yn ogystal â’r Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Ymchwil Gofal Cymdeithasol ac Iechyd, mae prifysgolion Cymru yn cystadlu gyda’r goreuon ar lwyfan rhwngwladol. Dangosodd canlyniadau Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil y DU yn ddiweddar bod mwy na thri chwarter y gwaith ymchwil academaidd a gyflwynwyd o Gymru yn ‘arwain y byd’ ac yn ‘rhagorol yn rhwngwladol’.

Strategaeth Ddiwydiannol Gwyddorau Bywyd y DU

Mae Strategaeth Ddiwydiannol Gwyddorau Bywyd y DU yn cydnabod pwysigrwydd clwstwr medtech Cymru fel rhan o ymdrech y DU gyfan. Mae wedi mynegi ei fwriad i gefnogi’r sector gwyddorau bywyd sy’n tyfu yng Nghymru, yn arbennig datblygu, gweithgynhyrchu a chefnogi twf a seilwaith drwy sicrhau’r nifer fwyaf o gymhellion ariannol er mwyn cefnogi buddsoddiad hirdymor. Mae ein Prif Swyddog Gweithredol, Cari-Anne Quinn, yn eistedd ar Grŵp Gwyddorau Bywyd y DU gan weithio gyda Llywodraeth y DU ar flaenoriaethau gwyddorau bywyd ac anghenion yng Nghymru.

Yn genedlaethol, mae’r llywodraeth wedi ymrwmo i ddarparu buddsoddiad sylweddol er mwyn cefnogi’r gwyddorau bywyd er mwyn cyflawni eu gweledigaeth o fod yn hwb rhwngwladol o’r radd flaenaf ar gyfer ymchwil fiofeddygol a chlinigol ac ymyrraeth feddygol. Yn benodol, bydd llifoeedd cyllid yn cefnogi gweithgarwch sydd wedi’u halinio â dau o brif heriau gwyddorau bywyd - Deallusrwydd Artiffisial a’r Economi Ddata a Chymdeithas sy’n Heneiddio.

Mae’r Athro Syr John Bell, Athro Brenhinol Meddygaeth ym Mhrifysgol Rhydychen a Chadeirydd y Swyddfa Cydlynu Strategol Ymchwil Iechyd, wedi cynnig diffiniad o’r ‘gwyddorau bywyd iechyd’ yn Rhagair Strategaeth Ddiwydiannol Gwyddorau Bywyd y DU fel: “y dull o gymhwyso bioleg a thechnoleg i wella iechyd, gan gynnwys biofferylliaeth, technoleg feddygol, genomeg, diagnosteg ac iechyd digidol. Mae ganddo’r fantais o gynhyrchiant uchel iawn o gymharu â sectorau eraill, ac mae’n cynhyrchu amrediad eang o gynhyrchion, gan gynnwys cyffuriau, technoleg feddygol, diagnosteg ac offer digidol, yn ogystal â chynhyrchion ar gyfer iechyd defnyddwyr.”

Mae ymdrechion cyfunol ein cymuned fusnes arloesol a gwasanaeth iechyd cronedig yng Nghymru, wedi’u harwain gan yr Hwb Gwyddorau Bywyd, yn darparu cyfle rhagorol i Gymru arwain y ffordd wrth ddatblygu a mabwysiadu atebion iechyd arloesol.

“Mae sector y gwyddorau bywyd yn ffynnu ac mae’n cyfrannu tua £2 biliwn i economi Cymru. Bydd y buddsoddiad yn helpu i adeiladu ar yr arbenigedd a’r dalent yr ydym eisoes wedi’u meithrin yn y sector hwn. Yn y tymor hwy byddwn yn disgwyl i’r buddsoddiad hwn greu cannoedd o sgiliau medrus iawn a fydd yn cefnogi twf economaidd.”

Ken Skates AC
Ysgrifennydd yr Economi, Llywodraeth Cymru

Ein blaenoriaethau strategol

Wrth ymgynghori a chydweithio’n agos gyda Llywodraeth Cymru, mae ein blaenoriaethau strategol diweddaraf yn adeiladu ymhellach ar waith yr Hwb Gwyddorau Bywyd ac yn llywio ein hymrwymiad i lesiant economaidd ac iechyd ein cymunedau. Ymhlith ein blaenoriaethau mae datblygu a chyflwyno cynllun gweithredol, cyflenwi achos busnes pum cam, ymgysylltu’n rhagweithiol gyda rhanddeiliaid a chreu cyfleoedd hygrych.

Cynllun gweithredol

Mae ein Cynllun Gweithredol yn canolbwyntio ar sicrhau bod gennym yr adnoddau a’r seilwaith i gyflawni ein hymrwymiaidau.

Recriwtio talent

Mae llawer o’n gwaith eleni wedi cynnwys sicrhau’r sgiliau, y wybodaeth a’r capasiti sydd eu hangen arnom i ddatblygu a gweithredu ein gweithgareddau craidd. Mae hyn yn cynnwys penodi ein tîm uwch reolwyr yn ogystal â rolau pellach drwy’r Hwb Gwyddorau Bywyd.

Datblygu rhaglenni

Cam cyntaf y gwaith yw datblygu ein rhaglenni wedi cynnwys dylunio a chreu’r llwyfannau digidol y byddwn yn eu defnyddio i’w rheoli. Mae’r rhaglenni hyn yn cynnwys:

- Rhaglen ymgysylltu â’r diwydiant, wedi’i rheoli’n ddigidol drwy ein gwefan, er mwyn hyrwyddo a chreu cyfleoedd
- Rhaglen ymgysylltu â’r GIG wedi’i hymgorffori ym mewnwyd y GIG
- Rhaglen datblygu Cynigion er mwyn nodi cyfleoedd cyllido yn y sector cyhoeddus a phreifat, cydlyn Grwpiau Diddordeb Arbennig sydd wedi’u halinio i’r cyfleoedd hyn a llywio’r broses o gyflwyno ceisiadau
- Rhaglen o ddigwyddiadau er mwyn hysbysu, addysgu, hwyluso cydweithrediad a darparu cyfleoedd rhwydweithio

Seilwaith

Rydym yn buddsoddi yn ein seilwaith digidol er mwyn cefnogi ein rhaglenni, ein dulliau cyfathrebu a’n gweithrediadau o ddydd i ddydd. Mae hyn yn cynnwys buddsoddi mewn:

- System CRM pwrpasol i ategu’r holl weithgarwch
- Cronfeydd data busnes er mwyn hwyluso ymgysylltiad â diwydiant, ymchwil i’r farchnad a diwydrwydd dyladwy cwmnïau
- Llwyfannau ymgysylltu digidol er mwyn cefnogi ein rhaglenni

Cyfathrebu, Marchnata a Chysylltiadau Cyhoeddus

Rydym wedi penodi Pennaeth Cyfathrebu a Chysylltiadau Cyhoeddus newydd, sydd wedi dechrau gweithio i ddatblygu ymgysylltiad â rhanddeiliaid. Mae wedi dechrau creu strategaeth gyffredinol i hyrwyddo diben craidd yr Hwb Gwyddorau Bywyd i bob rhanddeiliad ac mae’n datblygu brand a dulliau cyfathrebu’r Hwb Gwyddorau Bywyd, gan gynnwys y wefan newydd a digwyddiadau sy’n cynnwys lansio’r strategaeth newydd a digwyddiadau Ecosystem Iechyd Digidol i Gymru.

Wrth i weithgarwch ymgysylltu a gweithredu â rhanddeiliaid ddatblygu, datblygir strategaethau ar gyfer rhannau allweddol y farchnad er mwyn hysbysu, hyrwyddo, ymgynghori a meithrin ymddiriedaeth a hyder. Mae’r strategaethau yn seiliedig ar ganlyniadau gyda neges a diben clir.

Cyflenwi achos busnes pum cam

Rydym wedi dechrau gweithio gydag ymgynghorwyr profiadol a chymwys i gyflenwi achos busnes pum cam. Mae hyn yn darparu fframwaith ar sail tystiolaeth ar gyfer cyflenwi, rheoli a pherfformiad ein strategaeth arfaethedig a datblygu’r cynllun gweithredol.

Ymgysylltu â rhanddeiliaid

Drwy ddatblygu ein seilwaith digidol a’n gweithgareddau marchnata, rydym wedi gwneud dechrau cadarn ar ddatblygu ein hymgysylltiad â rhanddeiliaid. Bydd datblygu hyn ymhellach yn ffurfio rhan sylweddol o’n gweithgarwch yn 2018/19 a bydd aelodau’r Bwrdd a’r Prif Swyddog Gweithredol yn arwain ar hyn.

GIG Cymru

Mae ein ffocws clinigol ar sefydlu perthnasoedd amlddisgyblaeth ac aml-lefel ym mhob un o’r Byrddau Iechyd yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys datblygu modelau gweithredol a ffafrir gyda phob bwrdd iechyd, fel y bo’n briodol.

Diwydiant

Rydym yn adeiladu ar y perthnasoedd gwyb ym ydym wedi’u datblygu eisoes drwy’r sector gwyddorau bywyd yng Nghymru. Eleni rydym wedi dechrau ar brosiect i ddatblygu dulliau ymhellach er mwyn nodi a hyrwyddo cyfleoedd arloesi gwrthio a thynnu yng Nghymru, y DU ac yn rhyngwladol.

Partneriaid

Mae rhwydwaith o bartneriaid yng Nghymru, y DU ac ar draws y byd yn hollbwysig er mwyn canfod a datblygu cyfleoedd i gyflawni angen clinigol nad yw wedi’i gyflawni’n flaenorol. Un o’n blaenoriaethau strategol yw cynnal ymchwil i’r farchnad er mwyn nodi partneriaid ac ymgysylltu â hwy ar sail anffurfiol, ffurfiol neu gaffael.

Cyfleoedd

Elfen ganolog o’n gwaith yw datblygu cyfleoedd. Mae hyn er mwyn ein helpu i lansio a chyflenwi rhaglenni er mwyn creu mwy o gyfleoedd. Mae ein cyfleoedd cyfredol yn cynnwys Ecosystem Iechyd Digidol Cymru, CYFLYMU, y Grwpiau Diddordeb Arbennig a datblygu gofod datblygu busnesau. Mae’r gofod datblygu busnesau yn cynnwys darparu defnydd o ddesg barhaol i fusnes ifanc a sefydliadau partner. Rhagwelir y gallwn gynhyrchu tua £80,000 drwy logi desgiau, ystafelloedd cyfarfod ac ystafelloedd cynadledda.


Cyllid 2017/2018

Grantiau Prosiect

£58,429

Llogi Cyfleusterau

£105,102




Llywodraeth Cymru

£1,438,958

Datblygu Rhaglen

£183,106



Seilwaith

£885,501

Pobl

£517,298

"Mewn cyfnod lle mae gan Gymru gyfleoedd enfawr i adeiladu ar ei chryfderau fel gwlad fedrus sydd wedi'i chysylltu'n dda, ac i groesawu datblygiadau arloesol a thrawsnewidiol ym maes gofal iechyd, mae'n amser cyffrous iawn i fod yn rhan o Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru, sy'n helpu i ddatblygu a hyrwyddo'r partneriaethau angenrheidiol er mwyn sicrhau budd i gleifion."

Rhodri Griffiths

Rheolwr Gyfarwyddwr a sefydlydd Societas Management Ltd